# Y DINESYDD

PAPUR CYMRAEG CAERDYDD | TACHWEDD 1974 | RHIF 15


# DYFODOL Y DYSGWYR

Cymeriad lled gyffredin yn ein mysg erbyn hyn yw'r "Dysgwr". Mae e'n gwybod cryn dipyn o Gymraeg, yn gallu siarad ychydig hyd yn oed, ac yn ffyddlon iawn mewn dosbarthiadau nos, ysgolion Sadwrn a nosweithiau coffi. Ond mae e'n methu'n lân â deall Cymry yn clebran â'i gilydd ac os bydd hwn yn y cwmni, yn Saesneg, fel arfer, y bydd y sgwrs. Mae math arall o berson, wrth gwrs, sydd wedi bod yn dysgu ond mae hwnnw o'r golwg yng nghanol y bywyd Cymraeg. Dyma'r teip, yn ôl Isambard, yn "Barn". oedd allan yn mwynhau'r Eisteddfod yng Nghaerfyrddin pan oedd y "Dysgwr" ar y llwyfan. Bu teimlad ers tro bod angen dod a'r cyntaf yn nes at safon yr ail a bu sôn yng nghylchoedd y Brifysgol am y "plateau" yr oedd y Dysgwr yn ei gyrraedd heb lawer o olwg, yn fynych, ddringo'n uwch.

Yn y Bwrdd Estyn, sy'n cyd-gordio gwaith y pedai'r Adran Allanol, penderfynwyd ei bod yn ddyletswydd ar y Brifysgol ystyried yn ofalus beth y dylai ei chyfraniad arbennig hi fod i'r gwaith o droi'r "Dysgwr" yn siaradwr heb ddyblu'r gwaith arbennig oedd yn cael ei wneud eisoes trwy'r awdurdodau lleol. Y canlyniad fu penodi swyddog i wasanaethu am ddwy flynedd i arolygu holl faes dysgu Cymraeg i oedolion ac i gyflwyno argymhellion pendant. Dyma'r swydd a gefais i ac rwy ynddi yn awr ers mis. Mae'n amlwg imi eisoes bod yr oriau a dreulir yn dysgu yn llawer rhy fyr. Fe gafwyd cynnydd, mae'n wir, ym mhatrwm yr Wlpan sy'n amcanu cyflwyno'r iaith yn grwn mewn 100 o oriau. Mae'r canlyniadau'n galonogol ond beth yw 100 o oriau? Mis i bum wythnos o ddyddiau ysgol. Pythefnos o waith mewn Wlpan Hebraeg yn Israel. Mae'n bryd meddwl yn nhermau Uwch-Wlpan (200 o oriau) ac wedi sefydlu hwnnw, symud ymlaen at Arch-Wlpan (500 neu ragor o oriau). Wrth reswm, bydd sefydlu cyrsiau felly yn amhosibl heb dorri i mewn i'r diwrnod gwaith. Rhan o'm cynlluniau ar hyn o bryd, felly, yw diddori cyflogwr yn y syniad. Lle bynnag y bydd corff yn achwyn bod recriwtio staff sy'n siarad Cymraeg yn anodd, ac mae nifer yn gwneud, mae cyfle i daro. Mae'n dda gen i ddweud bod yr ymateb i'r cynnig mewn rhai mannau'n ffafriol iawn.

## ARCH-WLPAN

Ond does dim eisiau cyfyngu'r sylw i sefydliadau mawr. Gobeithio y caf ymateb hefyd gan gwmnioedd bach a chan unigolion sydd heb fod mewn gwaith amser llawn. Os bydd gan rywun ddiddordeb mewn Uwch-Wlpan neu Arch-Wlpan, lle bynnag y bo, carwn glywed oddi wrtho.

Nid dyma swm a sylwedd y gwaith o bell ffordd. Mae llawer agwedd bwysig arall - holl faes arholiadau i ddysgwyr o oedolion a chwilio am ffynonellau ariannol newydd i hybu'r gwaith ymlaen - ac enwi dim ond dwy - ond dyma'r rhan a fydd o bosibl o'r diddordeb mwyaf i ddarllenwyr y Dinesydd.

Yn y dyfodol, efallai, y bydd gennym gyfundrefn genedlaethol i ail ddysgu eu hiaith i'r Cymry a lle ynddi i'r dosbarth nos traddodiadol, yr Wlpan, a'r ddau sefydliad arall nad ydynt eto ond gobeithion.

CHRIS REES

## CORNEL

# Eisteddfod Treganna

Da gennym gyhoeddi, ar ôl apêl yn y Dinesydd y cynhelir Eisteddfod leol yn Nhreganna (Canton), ar Chwefror 22, yng Nghanolfan yr Urdd, Nid yw'r rhaglen wedi ei llunio eto, ond er mwyn y llenorion yn ein plith dyma'r testunau llenyddol:—

- Cerdd y Gadair — (caeth neu rydd) Llwch
- Englyn — Teledu
- Englyn digri — Y Dociau neu Côr Godre'r Garth
- Englyn Coch — Agored
- Telyneg — Cwlwm
- Llythyr Caru
- Chwech o benillion telyn
- Stori Fer
- Limeric
- Erthygl addas i'r Dinesydd

I'r Dysgwyr

- Traethawd neu ysgrif — Gobaith
- Cerdd — Y Ddinas
- Llythyr Caru

Am ragor o wybodaeth neu os dymunwch helpu neu gyfrannu'n ariannol anfonwch yn syth at — Norman Williams, 44 Heol y Nant, Rhiwbeina, Caerdydd.

Golyga hyn y cynhelir tair eisteddfod leol yn y cyffiniau hyn yn ystod 1975 sef yr eisteddfod uchod, Eisteddfod Efail Isa' ac Eisteddfod Y Fro. Gwych o beth — a chofiwch gefnogi.

# CYMANFA CODI'R TO

Ar ôl llwyddiant ysgubol y llynedd da gennym gyhoeddi y cynhelir yr ail gymanfa ymhen ychydig ddyddiau.

Yn neuadd Coleg Cyncoed ar nos Sadwrn Rhagfyr 7fed yn dechrau am 7.30 yn ychwanegol at berfformiadau'r gynulleidfa bydd y canlynol yn ymddangos —

CÔR GODRE'R GARTH (enillwyr cenedlaethol)
HEATHER JONES

Cyfeilyddion: A. D. THOMAS, PHYLLIS KINNEY

Yn clymu'r cyfan at ei gilydd bydd:
MEREDYDD EVANS

Hon unwaith yn rhagor fydd noson y flwyddyn yn y Brifddinas.

Mynediad trwy brynu llyfr canu arbennig fydd yn cynnwys 61 o ganeuon Oedolion 70c Plant 30c. (Gwerthu wrth y drws)

Dowch yn fuan rhag i chwi gael eich siomi.

# Llythyr at Y Golygydd

110 Ninian Road
Parc y Rhath
Caerdydd

*Carwn dynnu sylw trigolion Caerdydd at eitem o newyddion sydd heb ymddangos yn y wasg hyd yn hyn.*

*Gofynwyd i Marc Philips ymddiswyddo o'r Amgueddfa Werin, Sain Ffagan ar ol iddo ymddangos yn Llys Ynadon Caerdydd ar Fedi 20 fed.*

*Ymddangosodd Marc Philips, ynghyd â dau aelod arall o Gymdeithas Yr Iaith Gymraeg, Llion Williams ag Elaine Senior ar gyhuddiad o ddifrodi eiddo yn perthyn i'r Swyddfa Gymreig. R'oedd eu gweithred yn rhan o ymgyrch ddarlledu'r Gymdeithas. Cafodd y tri ddirwyon o £35 yr yn, a chostau o £50.*

*Ar y dydd Llun canlynol aeth Marc i'w waith a chael gair fod y Curadur, Trefor Owen, eisiau ei weld. Dadleuodd y Curadur fod Marc wedi gweithredu'n anghyson, wrth beri difrod i eiddo'r llywodraeth (Swyddfa Gymreig) tra'n gwarchod eiddo'r llywodraeth yn yr Amgueddfa.*

*Mae sylwadau Trefor Owen yn codi nifer o bwyntiau diddorol. Mae'n amlwg i mi nad ystyriwyd y rhesymeg tu ol i'r weithred, nac ychwaith, gymeriad Marc. Ychwanegai Marc nad oedd o'n disgwyl i'w gyflogwyr ei drin fel troseddwr cyffredin â ymosodai ar eiddo yn ddireswm. "Rwyf yn sicr mai ufuddhau i orchmynion y Swyddfa Gymreig a wnaeth Trefor Owen ac mai hyn oedd yn esbonio ei benderfyniad" meddai.*

*'Rwy'n synnu fod yr Amgueddfa Werin o bawb, wedi gweithredu yn y modd hwn ac efallai y cawn esboniad yn y "Dinesydd" nesaf, pam y cadwyd hyn yn ddistaw cyhyd.*

*Yn gywir,*

*Sian Myrddin.*

## NOSON GERDDOROL YN YR HEN STEIL

*Noson olau leuad braf, a'r coed rhosod heb fwrw'u petalau — Hydref 4ydd oedd hi — yn 'Bryncoed' Ffordd Llandennis, Cyncoed, cartref hardd Mr a Mrs Handel Morgan. Yno roedd caredigion cerdd — a charedigion Ysgol Feithrin Llandaf — wedi ymgynnull i fwynhau soiree mewn salon fel y gwnai'r byddigions gynt.*

*A'r doniau disglair i'n diddanu? Wel neb llai na merch y ty, Mrs Shan Thomas, ar ei thelyn, ei gwr Huw (athro Lladin Rhydfelen) wrth y piano, Philip Ellis (cyfaill arall o staff Rhydfelen) ar y gitar a'r ffidl, a Vanessa Thomas i'n tywys trwy gerddi Purcell a Bach etc. Llwyddodd pawb i rwygo'i hun oddi wrth y miwsig clasurol tua hanner ffordd trwy'r rhaglen i gymryd paned o goffi, ond rhaid oedd mynd nol i'n seddau'n bur sydyn i synnu rhagor at ystwythder y bysedd chwim ar gord a thant.*

*Noson anarferol braidd i griw o Gymry Caerdydd, a chyhoeddwyd ar y terfyn mai da o beth fyddai trefnu rhagor o nosweithiau tebyg yn ein cartrefi i noddi'n hysgolion meithrin. Deellir y ceir hwyrnos debyg yn Llysfaen, yng nghartref Mr a Mrs Kynrig Lewis, nos Sadwrn Tachwedd 23*

## NOSON O GAROLAU

Cynhelir gwasanaeth o garolau a llithiau (dwyieithog) o dan nawdd Cymdeithas Shir Gar a'r cylch yn Eglwys Dewi Sant Caerdydd nos Iau Rhagfyr 19eg am 7-30. Mae croeso i bawb sydd am ddod. Bydd casgliad gwyn a'r elw yn mynd at yr achos teilwng Cartref Gwyliau Jane Hodge gogyfer a phlant dan anfantais.

* * * * *

## CYNGERDD HEOL Y CRWYS

Perfformir Requiem Mozart yng nghapel Heol y Crwys, ar nos Sadwrn Rhagfyr 14eg. Tocynnau 40c a 60c.

* * * * * *




*Cofiwch am Gymanfa Codi'r to — a chditha hefyd Laura*


## GWESTY PLAS MAENAN

Gwesty Cymreig Cyntaf Cymru

* "DIWEDYDD". Noson draddodiadol gyda bwydydd Cymreig, medd, gwin cartref, difyrrwch gyda'r delyn etc.
* YSTAFELL FWYTA lle cewch fwydydd nodweddiadol a gwasanaeth gyda gwên.
* BARIAU cyhoeddus a golygfeydd godidog o Ddyffryn Conwy.
* POB LLOFT gyda ystafell ymolchi, breifat, ffôn, teledu, offer gwneud te etc.
* CYMRAEG yw prif iaith Plas Maenan.
* CYMERADWYWYD gan Ifas y Tryc ac eraill o gewri'r genedl!
* TELERAU ISEL ar gyfer penwythnosau'r gaeaf.
* CYFARWYDDWYR Enid ac Alan Wyn Jones, gynt o Rhiwbeina.

Ffôn : DOLGARROG 232



Ty'r Cymry — Caerdydd

## Cyngerdd "Cerddi o Dywi Deg"

*yng nghwmni* Côr Telyn Teilo

*(Arweinydd: Noel John)*
*Cyfeilyddion: Telynores Gwyrfil*
*Telynores Tysul*

NOS WENER, 24 IONAWR, 1975
am 8.00 o'r gloch.
THEATR REARDON SMITH, CAERDYDD.

Tocynnau: 50c. yr un:
Yr Ysgrifennydd, Ty'r Cymry,
11 Heol Gordon, Caerdydd.



## SIOP Y TRIBAN

* Yr unig siop ag ynddi restr lawn o Gardiau Cyfarch Cymraeg.
* Y detholiad gorau yng Nghaerdydd o lyfrau Cymraeg a llyfrau am Gymru.

## 6 Wyndham Arcade, Caerdydd.

Ffôn : 30042

# Hylovo Sut da chi?

Tair awr yn hwyr, dyna sut y cychwynnodd fy nhaith i i Fiji ac Awstralia yn ddiweddar. Trafferth bach rhywle yng nghrombil yr awyren, oedd yn fy atgoffa i am y Gwyddel yn hedfan draw o Ddulyn ac yn cael ar ddeall bod un injan wedi rhoi ei holaf dro: "Wel" medda fo "gobeithio fod y llall yn iawn, ne mi fyddwn i fyny ma drwy'r dydd."

A deud y gwir mi *oeddem* ni i fyny drwy'r dydd — deg awr ar hugain o hedfan i fod yn fanwl gywir — Llundain, New York, Los Angeles (neu L.A. fel bydda ni'n deud yn Llangefni), Honolulu ac yna Fiji.

Rhag ofn i chi feddwl fod y B.B.C. yn talu mor dda fel mod i'n medru fforddio gwyliau 12,000 o filltiroedd i ffwrdd o'r glaw a'r oerfel ynghanol yr haul a'r gwres, gwell i mi esbonio pam yr es i yno. I gadw cwmpeini i'r Cynhyrchydd, John Watkin, oedd eisiau gwyliau yn yr haul a'r gwres . . . naci — mynd allan wnes i, yn un o chwech i ffilmio tair rhaglen ddogfen yn Fiji a thair yn Awstralia ar gyfer rhaglenni plant, John Watkin, Cynhyrchydd, Gwenda Davies-Jones, Cynorthwydd Cynhyrchydd, Tom Friswell, Camera, Martin Saunders, Cynorthwydd camera, Ted Doull, Sain, a finna. Rwan, nol at y stori.

## DATHLU

Ar y degfed o Hydref roedd Fiji yn dathlu canmlwyddiant fel un o wledydd y Gymanwlad ac roedd y Tywysog Siarl yno ar gyfer y dathlu. Y bore hwnnw, er mwyn i ni gyrraedd Suva, y brif ddinas, roedd yn rhaid i ni fel criw deithio ar hyd y ffordd y byddai'r Tywysog yn ei chymryd ddeg munud yn ddiweddarach. Ydi'r darlun ganddo chi — cannoedd o blant a phobol mewn oed bob ochor i'r ffordd yn disgwyl yn eiddgar efo'i fflagiau a'u baneri. O'r diwedd ar ol hir ddisgwyl beth sy'n dod dros y gorwel — fan fawr goch a hogyn ifanc y tu blaen yn codi law er mwyn cael y dorf i ymateb i'r camera. Wel be nae chi, tae chi heb weld y Tywysog o'r blaen. Hollol!

A dyna ddigwyddodd — mi ges i dderbyniad tywysogaidd am tua tair milltir, a dwi'n siwr bod na bobol yn Fiji heddiw sy'n credu bod Tywysog Cymru yn mynd o gwmpas mewn Avis Rent-a-Van! Fe wnes i bob math o bethau yn ystod y pythefnos — ymweld a phanigfa siwgwr, ynys drysor ynghanol y mor wedi ei hamgylchynnu a reef coral (coral reef yn Saesneg), gweld Prif Weinidog Tonga efo'i drwsus am i benaglinia a'i sgidia yn i law yn croesi i'r tir mawr o ynys fechan Bau dipyn yn ddiseremoni oherwydd i fod o wedi ddal gan y llanw. Ymweld a phentref diarffordd a chael croeso bythgofiadwy gan y pennaeth i wledd o ddawnsio a chanu. Son am wledd, os cewch chi gyfle i fynd i Fiji am wythnos o wylia, ne benwythnos hyd yn oed (arhoswch i'r gwr fod mewn hwylia da cyn gofyn) gwnewch yn siwr eich bod yn bwyta pryd o fwyd wedi ei goginio mewn lovo. Twll yn y ddaear, tan poeth, cerrig poethach a'r cyfan wedi ei orchuddio efo pridd — dyna ydi lovo — popty mewn gwirionedd. Ac i mewn yn y popty? Corgimwch mewn sudd coconyt wedi ei lapio mewn dail banana, darnau o gig tyner crwban y mor, a mochyn cyfan. Ar ol awr a hanner yn y lovo, roeddem ni gyd yn llyfu ein gwefusau mewn mwynhad llwyr.

## CERRIG POETH

Mae na gysylltiad agos rhwng cerrig poeth y lovo a seremoni'r cerdded ar gerrig. Unwaith mae'r cerrig yn wenfflam yna mae bechgyn ifanc yr ynys yn cerdded ac yn dawnsio arnyn nhw yn droed-noeth. Peth da at gyrn.

Mae na un reol bwysig — am bythefnos cyn y seremoni rhaid i chi beidio bwyta coconut na bod yng nghwmni merchaid. Felly os da chi'n hoffi bwyta cnau yn y gwely efo'r wraig does ganddo chi ddim gobaith.

Mae na fwy i'w ddweud am Fiji a mwy i'w weld. Gobeithio y gwnewch chi fwynhau ein rhaglenni ni ym Mis Ebrill. Tro nesa gair bach am Awstralia, ond am y tro — Hwyl Fawr, neu fel byddan ni'n deud yn Fiji — *Isa Lei.*

**Hywel Gwynfryn**

# YMGIPRYS

Nos Fercher Hydref 16 yng Ngwesty'r Parc fe drowyd y cyntedd carpedog yn faes Armagedddon, pan rwygwyd ymlyniad llu o Gymry i ddwy gymdeithas. I fyny'r grisiau yn y Gymdeithas Lenyddol roedd y bardd Bryan Martin Davies wrthi'n trafod ei gerddi (yn barchus). I lawr ar y llawr roedd Hywel Teifi Edwards a'i fryd ar oleuo Cymdeithas Rhieni Rhydfelen (cangen Caerdydd) ynglŷn â'r gwirionedd am Eisteddfodau'r ganrif ddiwethaf (a hynny mewn ffordd weddol barchus). Tua marc yr 8pm rhannwyd y defaid oddi wrth y geifr ac aeth pawb i'w gorlan ddewisol. Diau i'r ddwy gynulleidfa gael hwyl a blas ond bod un wedi gorffen yn barchus o gynnar, tra dechreuodd y siaradwr gwadd annerch y llall ar yr awr annaearol o 9-30pm (er mawr ofid iddo) Gadewn ichi ddyfalu pun oedd pun, a dyna bôs y mis. Digon yw dweud bod astudio'r steddfodau hynny yn agoriad llygad. Wn i ddim pam yn y byd yr ydym ni'n gofidio am lygredigaeth moesau heddiw.


**Hen Lyfrau yn eisiau**

hen neu ail-law. Hefyd cylchgronau a phapurau. Gallwn alw i'w gweld.

**Siop y Pethe**
Aberystwyth
Dyfed

Ffôn 7120



**TYNNWCH Y RHUTHR A'R DRYSWCH O'CH SIOPA NADOLIG!!**

Mwynhewch drip i'r Barri i siop Dan Evans, lle cewch ddewis helaeth a chynhwysfawr o anrhegion gwerth eu rhoi i bob aelod o'r teulu, o'r lleiaf i'r mwyaf.

Enwch rhywbeth ac mae'n siwr y'i cewch yn ein siop ni. O degan arbennig i'r plant i ddilledyn i dad neu ddarn hyfryd o grochenwaith i mam. Ewch i'r adran drydan neu radio a theledu neu offer a chelfi cegin — Dillad i blant a phobl ifainc — adran ffasiynnau i'r gwragedd — llestri — carpedi a rygiau — pethau arbennig i'r babi bach — defnydd, patrymau ac offer gwnio — dillad nos — bagiau llaw — piniau ysgrifennu — mae'r rhestr yn ddiben draw.

Dyna pam mai'n arwyddair yw DAN EVANS — y siop i bob aelod o'r teulu.




*Galwch i weld*

**Dan Evans**

*Y BARRI 4242*

# MAES Y PLANT

## PRIODAS ANARFEROL

Rwy i wedi derbyn llythyr diddorol oddi wrth Bethan Jones, 15 Heol y Bont, Rhiwbeina. Ynddo, mae hi'n son am briodas y bu hi ynddi hi yn ddiweddar, ac rwy'n siwr y byddai pob un ohonoch yn caru darllen be sy ganddi i'w ddweud. Mae hefyd yn anfon ei llun ichi gael golwg arno. Hi ydy'r chwaer fawr ar y dde. Pwy wyr, falle y daw llythyr oddi wrth eich chwaer fach, Eleri, y tro nesaf. Ond dyma'r llun.



Mae ffrind gan ein teulu ni o'r enw Yashu. Mae Yashu yn dod o wlad Kenya, ac yn ystod yr haf fe briododd Yashu a merch o'r enw Bharti. Mae Bharti hefyd yn dod o wlad Kenya. Fe gawsom ni wahoddiad i'r briodas. Roedd y briodas yn Llundain. Roedd pum cant o bobl yn y briodas a dim ond chwech o bobl wyn, ac felly roedd 494 o bobl yn siarad Gujerati, mami a dadi, Eleri a fi yn siarad Cymraeg, a phar arall yn siarad Saesneg.

Pan gyrhaeddon ni'r lle, gwelsom ni gar Yashu y tu allan wedi ei addurno gyda tinsel o bob lliw a balwns. Roedd e'n bert iawn. Roedd Bharti wedi ei gwisgo mewn gwyn, ac roedd ganddi gadwynau o aur o amgylch ei gwddf, a breichledi aur am ei garddwrn. Roedd Yashu'n gwisgo siwt lwyd. Roedd y benywod yn gwisgo saris o wahanol liwiau oedd yn brydferth dros ben. Roedd y briodas yn cymryd dwy awr, ac roedd Yashu a Bharti yn eistedd ar y llwyfan dan ganopi prydferth iawn, wedi ei orchuddio a phapur lliwgar a blodau. Roedd tan yn llosgi ar flaen y llwyfan drwy'r seremoni. Roeddech yn gallu siarad faint fynnech chi tra bo'r seremoni yn mynd ymlaen. Doedd dim rhaid bod yn dawel fel yn ein priodasau ni. Ar ol y briodas roeddem ni'n cael bwyd. Roedd y bwyd yn llosgi ein tafodau am fod llawer o gurry a sbeis ynddo. Roedd dadi yn hoffi'r bwyd, ond byddai'n well gen i gael sglodion a physgod.

(Os oes gennych chi stori ddiddorol fel hon, fe fyddwn yn falch cael ei chlywed hi gennych chi).

## CALIMERO! Dim blas byw!

**Faint ohonoch chi, tybed, sy'n cael hwyl wrth wylio campau'r cyw, Calimero, ar Miri Mawr ar y teledu? Mae'n bosibl fod rhai ohonoch chi'n credu mai cyw a gafodd ei eni mewn fferm yng Nghymru yw e, ond er ei fod yn siarad Cymraeg ar HTV, mae e'n medru siarad sawl iaith, gan gynnwys Saesneg a Ffrangeg ac Eidaleg. Yn wir, yn Yr Eidal y cafodd e'i eni, ond mae'n grwydrwr mawr. Fe gafodd y llun a welwch yma ei dynnu yn Awstria, ond roedd y car wedi'i gofrestru yn Yr Almaen. A does gan y ferch sy yn y darlun ddim syniad i ble mae Calimero, druan yn mynd. Rhaid ei fod e wedi dweud rhywbeth digri, achos mae hi'n gwenu arno fe.**



## SAL IAWN

Roedd Ifan Ifans wedi bod yn yfed llawer gormod o gwrw ac fe gafodd waith mynd i'w wely – ac ar ol gorwedd am rai eiliadau, fe ddaeth rhyw deimlad rhyfedd drosto. Roedd yn methu symud ei goesau o gwbwl.

'Diar,' medde fe, 'rhaid y mod i wedi cael stroc. Gwell i mi ffonio'r meddyg.'

Drwy lwc, roedd y ffôn reit yn ymyl y gwely a dyma fe'n ffonio'r meddyg teulu i ddweud ei fod yn wael iawn.

'Fe fydda i gyda chi ymhen dau funud,' meddai'r meddyg.

Drwy lwc i'r meddyg ac Ifan Ifans, doedd yr hen wr ddim yn ofalus ynghylch cloi a phethau felly ar ol iddo fod yn yfed cwrw, ac fe aeth y meddyg i fyny i'r lloffit ato a'i weld yn edrych yn lled dda.

'Fe fedra i symud y mreichiau,' meddai Ifan Ifans. 'Yn y nghoesau rydw i wedi cael y stroc.'

Fe dynnodd y meddyg y dillad gwely'n ol a gwenu – achos roedd Ifan Ifans wedi rhoi ei ddwy goes yn **un** o goesau'i byjamas!

## NOSON WLYB

*Roedd un o blant Ysgol Gymraeg Y Barri, medde nhw, wedi mynd i chwarae gyda'i ffrind un noson, ac roedd yn bwrw cwn a chathod — hynny yw, bwrw glaw'n drwm, drwm, a medde mam ei ffrind,*

*'Drychwch ar y glaw yna! Man a man ichi gysgu gyda Huw heno.'*

*Digon teg achos roedd ei gartre ddwy filltir i ffwrdd. Ac ar ol diolch, fe ddiflannodd y crwt a dod yn ol i'r ty yn wlyb, stecs, diferu.*

*'Ble yn y byd mawr ych chi wedi bod?' medde mam ei ffrind.*


*'Dim ond adre i nol 'y mhyjamas!'*

## IDWAL JONES

**Un o'r dynion mwya digri a fu erioed yng Nghymru oedd gwr o'r enw IDWAL JONES. Fe fu e farw'n ifanc rai blynyddoedd yn ol, ond cyn iddo fe farw fe fu yn athro ysgol, ac mae'r plant a fu yn y dosbarth gydag e yn dweud na chawson nhw'r fath athro erioed. Roedd e'n peri iddyn nhw chwerthin drwy'r dydd. Dyma ichi limeric a wnaeth e i ryw fachan rhyfedd,**

Rhyw fachan lled ryfedd oedd Dai,
Fe ddwedodd un bore, "Gwd Bai!"
Wrth i wraig fach a'i blant,
A mi baglodd hi bant!
Mae fe heddi yn byw yn Shanghai!

Na, na, Mrs Jones rych chi'n rong!
Nid "Gwd bai" ddwedodd e ond "So long".
Ac enw y lle
Tae fater ynte,
A dwedyd yn iawn yw Hong Kong!

Welsh Rural Crafts Ltd.

**Crefftau Gwledig Cymreig**

ARCÊD Y ROYAL

*(gyferbyn a Gwesty'r Royal)*

- **Dewch i gael Syniadau am anrhegion Nadolig o'n dewisiad helaeth o grefftau gwreiddiol Cymreig.**
- **Ffasiynau newydd ar gyfer yr Hydref a'r Gaeaf mewn brithlen a brethyn Cymreig ar gael ar y llawr cyntaf.**

**GWNEWCH EICH TREFNIADAU TRIN GWALLT AR GYFER Y NADOLIG YN AWR**

* Mae Wenda, ein steilydd, sy'n siarad Cymraeg, ar gael i drin eich gwallt — ffôniwch 41266.
* Treiwch arlliw deniadol am olwg ysgafn; neu rhowch bersonoliaeth newydd i chi'ch hunan gyda lliw gwallt gwahanol, pyrm bwbli cyrliog, torri gwallt arbennig a steilio — triniaeth dwylo.
* Bydd Malcolm Shipman yn sicrhau eich bodlonrwydd wrth oruchwylio'r salon yn bersonol.

Malcolm Shipman...
Hair Fashions 94a Albany Rd Cardiff ☎ 41266

FFASIYNAU GWALLT 94A ALBANY ROAD, CAERDYDD

# CYMDEITHAS GYMRAEG PENARTH

Robin Gwyndaf o Amgueddfa Werin Sain Ffagan oedd y darlithydd yng nghyfarfod mis Tachwedd y Gymdeithas a fu nos Fercher y 6ed yng Nghapel Bethel, Plessey Street. Daeth cynulleidfa fawr yno a chafwyd darlith o uchel radd a diddorol dros ben. "Y Cwlwm sy'n Creu", oedd y testun. Dangshosodd sut yr oedd gwerin syml bro Uwchaled a Bro Hiraethog yn byw ac yn eu diddori eu hunain a'r gymdogaeth gyda'u "brethyn cartref", yn deillio o hen ddiwylliant barddol a llenyddol y wlad honno. Cynnal nosweithiau llawen yng ngheginau'r ffermydd ac yn y tafarnau. Sylfaen y bywyd cyfoethog oedd yno oedd y gymdeithas glos, gynnes a'r adnabyddiaeth rhyngddynt. Yr oeddynt oll yn adnabod ei gilydd ac yn gydnabod i'w gilydd. Yn rhyfyg a rhuthr y byd a'r bywyd cyfoes nid oes amser i sefyll a rhyfeddu, ys dywedodd bardd Gwent, W.H. Davies mewn iaith arall, ac y mae'r bywyd tawel, cartrefol a chymdogol yn cael ei sarnu a'r bobl eu diwreiddio o'u cynefin. Rhyfedd y newid sydd wedi dod tros yr hen ardaloedd cyfoethog hyn.

Nid yw Uwchaled neu Fro Hiraethog namyn enghraifft o'r hyn oedd yn wir am lu o ardaloedd cefn gwlad Cymru yn yr amser cynt. Ni honnai Robin Gwyndaf yntau ddim mwy. Yr oedd cael y darlun ganddo ef o fro ei febyd yn ddiddorol ac adeiladol. Cododd yno wŷr enwog ond mwy na hynny oedd y dystiolaeth am gyfranogaeth pawb oll at ddiddordebau a diwylliant gwerinol y fro honno yn ddiwahaniaeth. Darlun gogleisiol ydoedd y darlun a gawsom ganddo. Llywyddwyd y cyfarfod gan frodor o'r un cynefin âg yntau sydd bellach yn byw ym Mhenarth, sef, Eryl Roberts, yntau yn Is-lywydd y Gymdeithas am y flwyddyn.

Mis Rhagfyr bydd y Gymdeithas yn difyrru ei hunan gyda Penigamp i Bawb ar batrwm y gyfres Penigamp ar y Radio ac yn awr ar y Teledu. Nos Fercher y 4ydd y bydd honno. Yna ar y 10ed Rhagfyr bydd Cymdeithas Penarth yn westeion i Gymrodorion y Barri ac edrychir ymlaen yn awyddus at y cyfarfyddiad hwnnw.

Ithel Davies

CYMDEITHAS GYMRAEG
Penarth

Rhagfyr 4
Penigamp i Bawb
Cadeirydd : Mr B.J. Griffiths.

Rhagfyr 31 a Ionawr 1
Parti Nos Galan.

Chwefror 5
Noson o Ffilmiau am Gymru
Cadeirydd : Mr Maxwell Evans.

Mawrth 5
Cinio Gŵyl Dewi.

Ebrill 9
Dadl ysgafn gyda Chymdeithas Dinas Powys
Cadeirydd : Mr Ithel Davies.

Mai 7
Y Cwrdd Blynyddol.

* * * *

DIGWYDDIADAU YCHWANEGOL

Rhagfyr 16
Gwasanaeth Carolau yn Eglwys Sant Pedr Dinas Powys am 7.45p.m.

Mawrth 2
Gwasanaeth Gŵyl Dewi yn yr Eglwys Fethodistaidd Dinas Powys am 3.00p.m.

Ebrill 19
Eisteddfod y Fro.

Mai 18
Gwasanaeth Ewyllys Da a'r Gymanfa Ganu ym Methel.

Mehefin 1af. Cyrddau Blynyddol Bethel. (Yr Athro D.L. Trefor Evans).

# O'R TABERNACL

Daeth amser y dyfalu a'r crafu pen i derfyn. Erbyn hyn mae canlyniadau'r etholiad yn hysbys i bawb — nage nid yr etholiad cenedlaethol ond yr etholiad holl bwysig o ddewis saith diacon newydd. Dyma'r rhai a ddewiswyd — Eirene Davies, Emlyn Davies, Gwynfor Lewis, John Lloyd, Trefor Phillips, Eiriona Roberts a Gwynn Tudno. Llongyfarchiadau i'r saith a dymunwn iddynt flynyddoedd o wasanaeth i'r eglwys.

Fel arwydd o barch i Mr W.T. John ac mewn cydnabyddiaeth o flynyddoedd o waith da fel ysgrifennydd Salem, fe'i gwahoddwyd i fod yn ddiacon anrhydeddus ac er llawenydd inni mae Mr John wedi derbyn y swydd. Dymunwn iddo lawer eto o flynyddoedd hapus gyda ni yn y Tab.

Syfrdanwyd yr aelodau gan y newydd trist am y ddamwain ddychrynllyd i Eluned Evans ym Mhapua. Da gennym ddweud ei bod erbyn hyn wedi dod at ei hun ac ar wellhad. Mae Mrs Delun Rees wedi bod o dan driniaeth llaw feddyg ond mae hi nawr nol gyda'i theulu ac ar wellhad.

Mae Mrs Dilys Barraby newydd fod o dan driniaeth llaw feddyg, gobeithiwn ei bod hithau yn gwella.

Cawsom wasanaeth neilltuol iawn nos Sul Tach 10fed gyda'r bobl ifanc. Roedd y gwasanaeth o dan lywyddiaeth y Gweinidog. Roedd naws hyfryd a gweddigar trwy'r cyfarfod. Diolch i bawb a gymeroedd ran.

Cawsom y fraint fel Cymdeithas nos Fawrth y 12fed groesawu Cymdeithas Dewi Sant i'n plith. Daeth ant yn gwmni serchus llon i'n diddori a rhaglen wych. Nid wy'n cofio chwerthin cymaint ers tro. Yna roedd cyfle i siarad a hen ffrindiau dros gwpanaid o de. Diolch i bawb a gyfrannodd at wneud y noson yn un mor hapus a llongyfarchiadau i Max am lywio'r rhaglen mor wych.

### BABI

Llongyfarchiadau i Mair (nee Saer o'r Bala) a Doug James (o Aberteifi) ar enedigaeth eu cyntafanedig. Bu Mair ar staff ysgrifenyddesol y BBC.


## CYMDEITHAS TAI GWYNEDD

Buddsoddwch yn y Gymdeithas sy'n prynu tai yng Ngwynedd i'w gosod fel cartrefi parhaol i deuluoedd lleol.

Gellwch fuddsoddi (am 3 blynedd o leiaf) trwy lenwi'r ffurflen hon a'i dychwelyd, gyda'ch siec, i'r cyfeiriad isod:

*Amgaeaf siec am £............ i'w buddsoddi yng Nghymdeithas Tai Gwynedd ar log o 9%.*

*Dymunaf i'r llog -*

*a) gael ei gadw yn fy nghyfrif.*

*b) gael ei dalu imi bob 6 mis.*

*neu c) gael ei roi i'r Gymdeithas.*

Manylion pellach oddi wrth:

Dafydd Iwan, Trefnydd Tai Gwynedd,
Ffordd Llanllyfni, Penygroes, Caernarfon.


# NEWYDDION CWM RHYMNI

### MERI RHIANNON

Tra bod rhai yn mwynhau bywyd distaw a digynnwrf mae eraill yn hapus yn eu prysurdeb. Maent yn byrlymu syniadau newydd ac yn meddu'r egni a'r brwdfrydedd i wireddu eu gweledigaethau.

Un felly yw Meri Rhiannon. Oddi ar dyfodiad y teulu i Gaerffili yn 1963 mae bywyd y dref, yn enwedig y bywyd Cymraeg, wedi elwa ymhob cyfeiriad. 'Roedd Meri yn flaenllaw iawn yn natblygu y ddwy Ysgol Feithrin Gymraeg — y naill yn festri capel Tonyfelin, a'r llall yn Neuadd yr Eglwys, Penyrheol — yn dysgu, yn trefnu, ac yn annog eraill i helpu'r mudiad ymlaen. Cyfranna'n helaeth o'i doniau i'r Gymdeithas Gymraeg, y Cwmni Drama, yr Ysgol Sul Gymraeg yn Nhonyfelin, ac i Ysgol Gymraeg Senghennydd. Ac, wrth gwrs, Meri sy'n cadw trefn ar aelodau afreolus Côr Penillion Tannau'r Twyn

Trist, felly yw gorfod cofnodi fod y teulu yn gadael Caerffili yn y flwyddyn newydd ac yn symud i Fôn. Mi fydd yn golled fawr i'r ardal ond yn gaffaeliad gwerthfawr i Wynedd. Rhaid ond gobeithio fod pobl Môn yn brysur eisioes yn paratoi ar eu cyfer!

Dymunwn i Meri a Richard, ac i'r plant, Geraint, Gethin a Sioned bob llwyddiant a dedwyddwch yn y Gogledd.

G.R.

* * * * * * * * * * *

### UCAC

Swyddogion cangen Caerffili o UCAC am y flwyddyn yw - Cadeirydd - Randel Issac; Is-Gadeirydd, Lynette Jones; Trysorydd Dorothy Morgan; Ysgrifennydd, Alan Jones; Ysgrifennydd y Wasg Dafydd Sheppard. Mae'r gangen yn cynnal noson gymdeithasol i ddysgwyr Cwm Rhymni — yn arbennig i'r rhai fydd newydd orffen cwrs yr Wlpan — yn Nghanolfan yr Athrawon Nos Wener, Tachwedd 22ain, i ddechrau am 7.30p.m.

* * * * * * * * * * *

### GWOBR JON

Llongyfarchiadau i Ann Hopcyn Davies, Cefn Llwyd Abertridwr, ar iddi ennill un o wobrau Jon, cartŵnydd enwog y Daily Mail, ar ei chyfraniadau ym myd cerddoriaeth yn yr ardal. Cyflwynwyd y wobr mewn cyfarfod arbennig yn y Castell. Ar hyn o bryd mae Ann yn dilyn cwrs mewn cerddoriaeth yng ngholeg Goldsmith's.

* * * * * * * * * * *

### LLEISIAU

Cafodd Williamsiaid y BBC gyfnod prysur iawn yn y cwm ar ddechrau mis Tachwedd. Recordiodd Tregelles Williams Oedfa'r Bore yng nghapel Bethel Caerffili, dan arweiniad y gweinidog, y Parchedig Gwilym Morris. Y diwrnod canlynol roedd Marion Griffith Williams yn recordio darlith i Gymdeithas Gymraeg Caerffili gan Minwel Tibbott ar hanes paratoi bwydydd, ac o fewn wythnos ymwelodd Alun Williams â thref Bargoed i recordio rhaglen arall yn y gyfres 'Dewch am Dro'.

* * * * * * * * * * *

### YSGOL SENGHENNYDD

Prysurdeb hefyd sy'n nodwedd Cymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Gymraeg Senghennydd. Dilynwyd cyngerdd gan Gôr Meibion Pontarddulais gyda sioe ffasiynau gan gwmni melin Cwm Gwili. Cyfranwyd peth o'r elw o'r ddwy noson i'r ysgol Feithrin sy'n wynebu costau cynnal minibws i gludo'r plant bob bore.

* * * * * * * * * *

### CRONFA'R MILIWN

Derbyniodd Cronfa Cwm Rhymni i'r Eisteddfod Genedlaethol ddau gyfraniad o gan punt yr un o unigolion yn y cwm - hwb gwerthfawr tuag at y cyfanswm o £3,000 yr anelir ato. Hefyd mae'r gweithgareddau lleol yn cynyddu'n gyflym gyda nifer o nosweithiau coffi, teithiau noddedig, ac yn y blaen, heb anghofio'r cyngerdd mawreddog a drefnwyd ym Margoed gyda Chôr Meibion Bargoed.

# MR a MRS

GARETH LLOYD WILLIAMS

Yn ystod tair wythnos cynta'r mis nesa (Rhagfyr 2 ail — Rhagfyr 21ain) fe fydd rhai o fynychwyr y Theatr yng Nghymru wedi gweld drama pur newydd a phur feiddgar yn y Gymraeg. Ar y gorau fe fyddant wedi eu syfrdanu gan realaeth y sefyllfa a'r ddeialog; ar y gwaethaf fe fyddant wedi eu dychryn gan ei beiddgarwch. Oherwydd nid yw *Alpha Beta* - E A Whitehead (cyfieithiad John Ogwen) yn ddrama i'w chymryd yn ysgafn neu'n ysgafala. Mae'n ddrama sy'n synnu mewn llefydd, sy'n afaelgar drwyddi ac sy rai camau ymlaen oddi wrth un dim a welwyd ar lwyfannau Cymru o'r blaen. A'r ddrama hon yw cynhyrchiad newydd Cwmni Theatr Cymru ar gyfer eu taith fis Rhagfyr.

Mr. a Mrs. Elliott yw'r ddau brif (ac unig) gymeriad yn y ddrama — eu drama nhw ydi hi, eu problem nhw ydi hi! Ond at Mr. a Mrs. arall — John Ogwen a Maureen Rhys y byddwn ni'n edrych am ddehongliad o'r ddrama hon yn y Gymraeg, ac mae'n debyg mai dyma'r tro cynta yng Nghymru i ŵr a gwraig gymryd y prif rannau yn yr un ddrama.

Ar awgrym John y derbyniodd Mr. Wilbert Lloyd Roberts, Cyfarwyddwr Cwmni Theatr Cymru, y ddrama i'w chyflwyno. Ceisiodd Mr. Roberts, yn ddiweddar, gael mwy a mwy o actorion i'w cysylltu eu hunain â'r cwmni drwy gyfrannu syniadau am ddrama a chynhyrchiadau newydd. Fel ymateb i'r cais hwn teimlodd John Ogwen y buasai'n braf, o safbwynt yr actorion a'r gynulleidfa, cael gweld drama realistig yn cael ei pherfformio gan fod y rhan fwyaf o'r dramau sydd wedi bod o gwmpas yn ddiweddar yn rhai oedd yn tueddu tuag at y Theatr Afreswm ac yn llawn symbolaeth.

Beth bynnag arall ydi hi mae *Alpha Beta* yn realistig. Fe fydd tri pherfformiad i'w gweld yn Theatr y Sherman Nos Iau, Gwener a Sadwrn, Rhagfyr 19eg, 20fed, a'r 21ain.



*John Ogwen a'i wraig Maureen yn y ddrama Alpha Beta*

*Llun — Cwmni Theatr Cymru a Craely's Studio.*

## MR. a MRS. ETO!

Fe fydd yr enw — Cadi Morris yn golygu rhywbeth i wylwyr cyson y ddrama gyfres deledu "Pobol y Cwm", sydd i'w gweld ar BBC Cymru ar hyn o bryd. Cadi Morris(Miss) ydi nith Cliff James, — perchennog y *Deri Arms*. Ond mewn bywyd bob dydd enw iawn Cadi Morris ydi Betsan Roberts (Mrs.). Yn ystod dwy bennod o'r gyfres fe fydd Betsan yn actio i gyfarwyddyd ei gŵr Pennant Roberts (Mr.). Yn adran gyfresi BBC 1 y bydd Pennant yn gweithio fel rheol (yn ddiweddar mae wedi bod yn cyfarwyddo rhai pennodau o *The Regiment* a *Sutherland's Law*) ond yn ystod yr wythnosau diwetha hyn mae Pennant wedi bod yng Nghaerdydd yn gweithio ar ddwy bennod o "Pobl y Cwm" fydd yn cael eu darlledu ar Rhagfyr 4 ydd a'r 11eg.

## ······AC ETO!

Gwyliwch eich cyfle wŷr a gwragedd! Mae nhw i gyd wrthi yn ystod pennod 9 o "Pobl y Cwm" (Darllediad Rhagfyr 11eg) fe fydd Mr. a Mrs. arall yn cyd weithio. Y tro yma fe fydd Christopher Reich (Mr.) yn ymddangos yn yr un bennod â'i wraig Lisabeth Miles (Mrs.) — Eto i'r gwylwyr cyson, fe fydd enw Megan James (Lisabeth Miles) yn gyfarwydd fel gwraig Cliff James (Clive Roberts) ac yn ystod y bennod arbennig hon fe fydd Christopher Reich yn chwarae rhan arwerthwr, ond dim mwy o fanylion am hynny ····rhag ofn difetha'r stori i'r gwylwyr cyson!



*Llun — BBC Cymru*

*Genod y Cwm — Menna Gwyn, Gaynor Morgan Rees ac Elisa Tomos yn y cefn, Lisabeth Miles, Betsan Roberts a Solomon y ci, (Solomon y ci yw'r un sydd ar flaen y llun)*


## RECORDIAU NEWYDD Y NADOLIG

gan SAIN

Recordiau HIR

HOGIA'R WYDDFA — *Croeso 'Nôl.*

EDWARD H. DAFIS — *Hen Ffordd Gymreig o Fyw.*

RICHIE THOMAS — *Yr Hen Rebel*

COR MEIBION TRELAWNYD

*Recordiau Bach.*

MIRI MAWR — *Caleb Llew a Blod wrthi*

EIRLYS PARRI — *Ti yw fy nghan.*

# CANOLFAN DECHNOLEG

Wrth gyflwyno petisiwn i ennill statws Bwrdd Deisdref yn 1888 pwysleisiodd cyngor Caerdydd yn fwyaf arbennig ar agweddau economaidd y Dref, dyma ddau o bwyntiau a nodwyd:

a. Mae Caerdydd o bell ffordd yn dref bwysicaf yng Nghymru ac yn blaenori fel Porthladd ar Lerpwl, Llundain, Glasgow, Bryste, Hull, Newcastle, Sunderland a Portsmouth.

b. Mae tyfiant Caerdydd fel canolfan diwydiant Glo yn fwy na unrhyw borthladd arall ym Mhrydain.

Erbyn hyn mae Caerdydd yn Brifddinas Cymru a bu iddi ennill y statws hwn eto ar sail y diwydiant Glo, beth felly ydyw cyfrifoldeb swyddogion a chynghorwyr Caerdydd tuag at Gymru?

Ni all dim lwyddo heb ddatblygiad economaidd iach, rhaid cofio mai Saer Coed oedd arweinydd Cristnogaeth a mi dybiwn ei fod yn grefftwr ardderchog, felly sylfaen a diogelwch cymdeithas dda ydyw sicrwydd economaidd gydag egwyddorion fel a geir yn y grefydd Cristnogol.

Mae gan bob prif ddinas sefydliadau i wasanaethu y Genedl, a mi wyddoch am y rhai hynny sydd yn gwasanaethu Cymru gyda swyddogion yn gweithio ymhob ardal. Gallwn enwi nifer ichwi, ac efallai y gallech ychwanegu atynt ond gwell peidio, rhag i ni dramgwyddo. Yr hyn sydd yn bwysig ydyw mai y diwydiant Glo a roddodd fodolaeth i Gaerdydd a rhaid gofyn beth mae Caerdydd am roi i ardaloedd y Glo a Chymru Gyfan?

Yn ystod y blynyddoedd diweddar mi welsom ddatblygiad rhai sefydliadau newydd, bu i rhain godi dros nos, a nid oedd rhaid codi pwyllgor ymgyrch, a mae grantiau ariannol y sefydliadau hyn yn aruthrol o fawr, ac yn cynyddu bob blwyddyn.

Sut mae sefydliadau yn codi a phaham na chawn ni y rhai a ddylem gael? Hawdd iawn fyddai ateb y cwestiwn, ond rhaid atal oherwydd byddaf yn sicr o godi pwnc dadl ac mae'r amser hwnnw drosodd cyn belled ac mae'r Canolfan Dechnoleg yn bod. Y gwir ydyw fod Cymru gyfan yn cefnogi ac mae Caerdydd, wedi iddi gael popeth oddiwrth y diwydiant glo, yn atal y llwyddiant terfynol hyd yn hyn.

'Rydym wedi cael ymchwiliad gan arbenigwyr ac mae'r adroddiad wedi dod allan gydag agwedd negyddol a chadarnhaol. Mae pwyllgor yr ymgyrch yn cynnwys arweinwyr mewn Echnoleg yng Ngholeg y Brifysgol Caerdydd yn cymeradwyo agwedd gadarnhaol yr ymchwiliad, a dywedodd Athro Harri Lloyd, Adran Metoleg, bod rhaid cael Canolfan Dechnoleg os ydym am ddiogelu safle economaidd Cymru.

Os dyma ydyw'r ymateb, tybiwn y bydd bechgyn a merched ieuainc Cymru o dan anfantais mawr os na chawn y Ganolfan Dechnoleg, a mae y diweddar Dr Idris Jones, prif wyddonydd y Bwrdd Glo wedi paratoi memorandwm yn cefnogi'r ymgyrch a braint i mi yw cael ei chyflwyno i ddarllenwyr y Dinesydd gan ofyn ichwi ein cefnogi ymhob modd posibl. Gwrbonheddig oedd Dr Idris Jones, colled i Gymru oedd i ni beidio a gwneud y defnydd a ddylasem ohono, ond dyma y ffeithiau ganddo a diolch i'r cyfaill am gyfiethu y gwaith i'r Gymraeg.

‡ Cyhoeddir yr adroddiad yn rhifyn Rhagfyr

SYMUD

*Mae PETER ELIAS JONES, Pennaeth Adran Plant HTV Cymru, a'i wraig a'i ferch wedi symud o Llanmaes i Llwyn y Bedw, 17 Heol Millbrook, Dinas Powys.*

PRIODAS

Llongyfarchiadau i Richard, mab Nat a Rita Howells, Heol Beulah ar ei briodas yn ddiweddar gyda Carol. Maent yn ymgartrefu ym Mhontypridd.

* * * * * * * * *

TREFNU GWAEL

Ar Dachwedd y 13eg, unwaith eto yn y Parc cynhaliwd dwy ddarlith gan ddwy wahanol gymdeithas. Roedd Eigra Lewis Roberts yn annerch y Gymdeithas Lenyddol a'r Athro Jac L Williams yn darlithio i'r Clwb Cinio. O ddefnyddio'r Dinesydd yn well fe ddylid sicrhau nad yw cyd ddigwyddiadau fel hyn yn digwydd o gwbl.

# COLOFN SBECTOL SIAN

CYM — DANSING

Dyma'r newyddion — yng nghyfarfod blynyddol Cwmni Dawns Werin Aelwyd Caerdydd yn ddiweddar pasiwyd y cynnig isod —

"Fod y cyfarfod hwn i'w gynnal yn ddwyieithog gan fod cymaint o'r aelodau yn Saeson"

Cywilydd arnoch — os gwelwn gymdeithasau o'r math yma yn disgyn pa obaith sydd i Gymreigio cymdeithasau Saesneg, ac achub yr unigolion di-Gymraeg? Does dim rhaid pregethu am ganlyniadau math yma o bolisi — cyn y byddwch hanner ffordd drwy 'Geiliog y Rhedyn' fe fydd y Gymraeg wedi'i stwffio i gornel dywyll i gadw cwmni i'r Fari Lwyd gan ddod allan yn achlysurol. Cofnodion Saesneg y tro nesa' efallai?

CYM ANFADDEUOL

A chymerwch Y Tabernacl neu'r' 'Tabernacle Cardiff. Roedd cyngerdd mawr yn y capel ar Hydref 19eg gan Gantorion Ardwyn. Beth wnaeth y pwyllgor? Ie Ie, cyhoeddi'r tocynnau a'r rhaglenni yn uniaith Saesneg. Anhygoel. Tybed sawl cymdeithas arall sy'n honi Cymreictod ond yn trin yr iaith fel y ddau enghraifft uchod. Diddorol fua sai clywed-beth am eich clwb, cymdeithas neu gapel chi.

CYM — ON Diod, gamblo, merched. Os mai dyma'ch math chi o adloniant rydych wedi ei methu hi y tymor hwn. Edrychwch ar raglen Clwb Ty'r Cymry a ymddangosodd yn Dinesydd diwethaf — Gwneud gwin, gyrfa chwist, a noson yng nghwmni Coleg Llandaf — cofiwch y tymor nesa.

HYSBYSEBION

RHAGFYR 9 Gwasanaeth Nadolig Bryntaf, Capel Minny Street 6-30pm.

RHAGFYR 17 Ysgol Gymraeg Bryntaf yn cyflwyno pasiant "Crwydro Dyfed" Neuadd Coleg Addysg Cyncoed 7.00pm.

RHAGFYR 11Cymdeithas Lenyddol Caerdydd Caradog Prichard yn bwrw golwg dros gefndir ei nofelau a'i gerddi Gwesty'r Parc 7-30pm

RHAGFYR 14 Cylch Cinio Cymraeg Caerdydd. Noson y boneddi gesau. Caws a gwin Coleg Addysg Caerdydd. Tocynnau £1 25 Elw i gronfa Elusen y Cylch)

RHAGFYR 19 Parti Dolig Ysgol Feithrin Rhiwbeina 2-3.30 pm.

RHAGFYR 11eg Merched y Wawr Caerdydd Carol a Chân yng nghwmni'r Dysgwyr Canolfan yr Urdd.

YSGOL FEITHRIN ARALL
Agorir Ysgol Feithrin Gymraeg newydd ym Mhentrepoeth (Morganstown) ger Radyr ar ôl y Nadolig, dan Mrs Christine Livsey. Ymgysyllter a Mrs Bethan Roberts am fanylion.


YSWIRIANT BYWYD ?
PENSIYNAU ?
BUDDSODDI ?
MORGAIS
GWADDOLIAD ?

Cyngor Proffesiynol o Ffynhonnell Ddi-duedd

E. GARETH JONES
93 Maesycoed Road,
Caerdydd CF4 4ME. Ffôn: Caerdydd 611322

Aelod o Ffederasiwn Brocer Yswiriant

# Ymweliad Eugene Ionesco

## Tachwedd 1974

Mae 'O' wedi mynd ac fe allwn ninnau guddio unwaith eto tu ôl i ystrydebau diogel 'Stryd y Coroni' neu 'Bobol y Cwm'. Mae'r (h)ŵyl drosodd; pythefnos brysur o berfformiadau ar lwyfan a sgrin, o ddarlithiau a thrafod mewn tair iaith. Gwledd yn wir;gormod o bwdin medd rhai,''ffraeth ei geg ond ffroth i gyd' medd eraill. Bron i bum mlynedd ar hugain ar ol ymddangosiad cyntaf 'Y Brimadonna Foel' mae'r dadlau a'r dryswch, y canmol a'r melltithio yn dal yr un mor gryf. Yn ystod y cyfnod yma gwelwyd un datblygiad fodd bynnag na ellir ei wadu na'i osgoi. Bellach mae Ionesco, gyda Brecht, wedi ei sefydlu'n ddiogel fel un o'r ddau ddramodwr y cynhyrchir fwyaf ar eu gwaith o holl ddramodwyr y Cyfandir. Edrychais ymlaen felly at glywed ei farn yn y cyfarfod olaf. ond y fath siom. Ai myfi tybed oedd yr unig un a adawodd mewn anobaith? Nid bai Ionesco, dydi ei Gymraeg o damaid gwell na'm Ffrangeg innau, ond diffyg trefniadaeth. Roedd yno Gyfieithwyr ond wnaed dim defnydd ohonynt. Blerwch ar ran y trefnwyr, ac anghwrteisi at y ŵr gwadd.

Am bythefnos cyfan bu gweithgareddau'r Sherman yn fwyd ac yn ddiod i lawer, a bu'r gwr mawr ei hun yn ddigon cwrtais i fynychu'r rhan fwyaf o'r cyfarfodydd. Rhaid cydnabod fod yr awyrgylch nawddogol o Sycoffantiaeth noeth yn mynd yn gyfoglyd ar brydiau, ond pythefnos hynod o ddiddorol serch hynny. (Nodyn i'r gohebydd ffasiwn — peidiwch synnu gweld y 'polo neck' yn dod yn ôl i fri ymysg ceiliogod y colegau gyda hyn). Yn sicir un o'r nosweithiau mwyaf llwyddiannus oedd perfformiadau Cwmni Theatr Cymru, o dair drama fer. Perfformiwyd dwy ddrama o waith Ionesco 'Pedwarawd' a 'Drama Ddifyfyr yr Alma'; dyna'r frechdan, a'r jam yn y canol oedd 'Yr achos yn erbyn y Cwmni ac Ionesco' gan awdur anhysbys heb fod fil o filltiroedd o Stryd Waterloo, Bangor, nac o'r llwyfan o ran hynny. Cynhyrchwyd y dair gan aelodau'r cast, Pedwarawd gan Valmai Jones, 'Yr Achos' gan Grey Evans, a'r 'Alma' gan Iona Banks. Pleser oedd mwynhau noson o gyflwyniadau disgybledig a dyfeisgar yn Gymraeg oedd yn cymharu'n deg iawn ac unrhyw un o berfformiadau'r Wyl.

### STWNSH

Pwrpas Ionesco, yn ôl ei gyfaddefiad ei hun, yw darnio iaith a dryllio holl gonfensiynau'r ddrama; gwneud stwnsh o'r cyfan ac yna mynd ati i ail sefydlu'r deynydd crai yn y fath fodd y gall 'gyffwrdd bywyd'. Wadai neb ei lwyddiant mor bell ac y mae rhan gyntaf y gosodiad yn mynd ac yr oedd 'Pedwarawd' a'r 'Alma' yn engreifftiau teg o hyn. Chwirliai'r geiriau'n ôl a blaen yn gawodydd cymysglyd fel dail yr Hydref. Adlewyrchwyd rhuthr gwyllt rhuthmau a phatrymau' deialog yn aflonyddwch y cymeriadau; a'r cyfan yn adlais o anniddigrwydd ein cymdeithas gyfoes. Nid mympwy cynhyrchydd mo hyn ond bwriad yr awdur. Mae ei gyfarwyddiadau llwyfan yn gysact ac yn fanwl. Mae cymhlethdod pellach. Gwelir fod ei gymeriadau o bryd i'w gilydd yn simsannu, yn ymdebygu i'w gilydd, yn cyfnewid deialog a hyd yn oed bersonoliaeth a gwedd. Mae nhw'n asio un i'r llall, yn toddi'n un, yn cyfnewid ac yna'n dychwelyd i'w ffurfiau gwreiddiol unwaith eto. Gŵrthddywediad yw popeth' meddai yn 'Yr Alma' a dyma ddod at graidd ei frwydr barhaus i ddiffinio gwirionedd Ei honiad yw mai ym myd llên, ym myd breuddwydion a'r dychymyg yn unig y gwelir gwir ddwysder a gogoniant y gwirionedd. Ffug yw popeth arall, a ffug yw'r theatr gonfensiynol. Gwahaniaetha'n ofalus rhwng yr ymddangosiad o bethau fel y maent (Ibsen dyweder) a'r 'gwirionedd' y chwilia ef yn barhaus amdano; rhwng realaeth a realrwydd.

### BEIRNIADU

Beth am y perfformiadau? Fe glywyd Ionesco yn beirniadu rhai o berfformiadau eraill yr ŵyl o fod yn rhy araf, yn rhy bwyllog. Dylai'r siarad a'r symud fod mor gyflym na all y gynulleidfa bendronni dros 'ystyr' geiriau unigol ond yn hytrach ymdeimlo a naws y ddrama yn hytrach na'i deall. Yn hyn o beth bu chwareuwyr Cwmni Theatr Cymru'n dra llwyddiannus ar y cyfan. Cyflwynwyd diffyg cyfathreb (Pedwarawd) yn dwt a chryno; y llefaru a'r symud yn hynod o gelfydd. Yn 'Yr Alma' cawsom gip ar ei frwydr barhaus gyda'r beirniaid bondigrybwyll sy'n ceisio'i gornelu os nad ei gorlannu, byth a hefyd. Methiant fu eu hymdrech hyd yn hyn i'w lyffetheirio i ryddid pen rhaff eu damcaniaethau. Cafwyd perfformiadau dyfeisgar unwaith eto gan Huw Tudor, Dyfan Roberts a Grey Evans, ond er cystal eu hymdrechion roeddwn i'n dechrau blino ar dalpiau hirwyntog o ddamcaniaethau ac ail ddweud. Ai heresi yw cydnabod yn ddistaw bach i mi gael mwy o fwynhad o'r 'Achos'. Jam ar y frechdan, ac yn wir yn felys odiaeth, o leiaf roeddwn i ar dir cyfarwydd fan hyn.

Rhai blynyddoedd yn ôl perfformiwyd 'Pedwarawd' ar un o deithiau cynnar y cwmni. Y storm o gwyno a phrotestio wedi'r daith honno fu man cychwyn 'Yr Achos'. Darlunia'r ddrama gwpwl cyffredin, canol oed, yn galw'r cwmni i gyfri o flaen Tribiwnlys, ar sail y Trades Descriptions Act, am wn i, am lwyfannu'r fath sothach. Rhoddodd hyn gyfle i'r cwmni gyflwyno i ni ddadleuon o blaid ac yn erbyn Ionesco a gwneud hynny gyda pherfformiad bywiog nwyfus llawn hiwmor a direidi. Pwy ddeudodd mai'r unig beth gwerth ei gymryd o ddifri yw comedi? I ddod yn ôl at yr hen gwpwl. Yn eu barn nhw, beth bynnag arall oedd y perfformiad, 'doedd o ddim yn ddrama. Chwarae teg i'r ddau, roedd gen i'n bersonol lawer o gydymdeimlad a nhw.

GEORGE P. OWEN.

**DEWCH AM DRO?**

*Mewn mwy nag un ystyr. Achos fe ddaeth newyddion da am dro i Alma (gynt o Gydweli) Carter a Ricky sy'n byw yn Y Tyllgoed. Maen nhw wedi mabwysiadu mab bychan, sef Rhys Wyn. Un o ganlyniadau dyfodiad Rhys Wyn fydd ymadawiad Mrs. Carter a'i swydd fel ysgrifenyddes i Alun Williams gyda'r BBC.*

*Ond fe ddywedodd yntau, 'Dewch am Dro' ac fe ddaeth Carys Rowlands o Fon, a oedd yn arfer gweithio i Mr Gwenlyn Parry yn yr Adran Ddrama i weithio fel ysgrifenyddes iddo.*

*BONHEDDWR MAWR O'R BALA?*

*Nid yn hollol, achos boneddiges yw Sian Eleri. Fe ddaeth i oleuo aelwyd Mrs a Mrs Mair James yn Y Creigiau. Miss Maer Saer o'r Bala oedd Mrs. James cyn priodi. Mae Mr Douglas James yn hannu o sir Benfro. Anrheg Nadolig gynnar!*


O, 'RWY'N GYMRO GOL-EU-EDIG!




Sythwch y sefyllfa. Anfonwch £1.00 i ymaelodi am weddill 1974, ar unwaith:

UCAC

UNDEB CENEDLAETHOL ATHRAWON CYMRU

11, Gordon Road, Caerdydd, CF2 3AJ. Tel. 24692

# O'R AELWYD

**Nos Wener, Hydref 25ain, rhoddodd Aelwyd Caerdydd groeso i Aelwyd Pontardawe. Yr oedd rhaglen wedi ei pharatoi ymlaen llaw, sef ffug-eisteddfod, bwyta a dawnsio.**

**'Roedd naws hollol Gymreig drwy'r noson, a chafwyd hwyl fawr yn ystod y ffug-eisteddfod. Amrywiai'r cystadlaethau o ddarllen darn heb atalnodi i gôr yn canu allan o diwn, ac ymatebodd y gynulleidfa'n dda i bob un ohonynt. Un o'r eitemau mwyaf doniol oedd y côr yn canu allan o diwn. Yr oedd sglein amlwg ar fersiwn Aelwyd Pontardawe o "Calon Lân.", a phob copa walltog o'r côr wedi ymroi i'r orchest nid fechan o'i chanu'n hollol anghywir! "Sosban Fach" oedd dewis Aelwyd Caerdydd, ac yma cafwyd ymdrech gan rai aelodau'r côr i efelychu'r ystumiau a wnaed gan yr arweinyddes, ac arweinydd arall y tu ol iddi! Yn anffodus, nid oedd côr Caerdydd wedi'i ddisgyblu cymaint â chôr Pontardawe, a rhaid oedd cytuno â'r beirniad, Moi Parri, pan ddyfarnodd Aelwyd Pontardawe'n fuddugol.**

Cystadleuaeth ddifyr arall oedd yr adrodd unigol (tan 5 oed). Ricky Taylor a gynrychiolodd Aelwyd Caerdydd, a chwarae teg iddo, bu ond y dim iddo argyhoeddi'r gynulleidfa mai bachgen bach oedd e'! Ond, yn ôl y beirniad, sef Sion Alun, yr oedd adroddwr Aelwyd Pontardawe'n rhagori arno, felly cafodd mwy o farciau. Gyda llaw, allan o fil yr oedd pob marc!

"Gladys" a gynrychiolodd Aelwyd Pontardawe yn yr Unawd offerynnol, a chwaraeodd hi ddarn hyfryd, ond am y ffaith ei fod naill ai allan o diwn, (Rhaid sôn yma bod bai ar y piano am hynny, i raddau beth bynnag), neu'n fodern dros ben! Wedyn canodd Gareth Thomas o Aelwyd Caerdydd amrywiad hyfryd iawn ar y dôn "Llef" ar yr un offeryn, ond 'roedd ei ddatganiad yn soniarus iawn. Dau ddatganiad hollol wahanol i'w gilydd, mor wahanol fel na allai'r beirniad benderfynu pwy oedd y gorau. Felly daethant yn gydradd.

Ddiwedd y Steddfod, dyfarnwyd Aelwyd Caerdydd yn fuddugol (dim ond wrth chwarter pwynt) a'r beirniaid yn cyfadde' nad oeddent yn fathamategwyr perffaith! Ymddiheurodd Ian ap Dewi, a fu mor garedig â threfnu'r noson, na allai Ledi Edwards ddod i gyflwyno tarian i'r Aelwyd buddugol.

Bwytawyd ag awch nid anghyffredin i rai a fu'n gweithio mor galed yn ystod yr awr flaenorol. Yna, cafwyd dawnsio gwerin a disco i gloi noson goriadwy. Credaf mai teg dweud i bawb gael hwyl a bod y noson yn un ddifyr i'r ddau aelwyd. Ond rhaid i bopeth melys ddod i ben, a bu raid canu'n iach â'r gwahoddedigion, tua deugain ohonynt, gan ddymuno taith bleserus iddynt yn ôl i Bontardawe.

Gobeithir trefnu nosweithiau amrywiol yn y dyfodol, ac y mae croeso i unrhyw un a ddymuno ymuno yng ngweithgareddau'r Aelwyd, (Cymru, Welshman neu Sheinaman, 'sdim ots) ddod ar nos Wener am 7.30.

Helen Smith
Ysgrifennydd

## CWMNI DRAMA

Mae Cwmni Drama Aelwyd Caerdydd wrthi'n brysur iawn y dyddiau hyn yn ymarfer ar gyfer perfformiad 'Y Tad A'r Mab', drama John Gwilym Jones. Ar ol llwyddiant ysgubol y cwmni yn Eisteddfodau Cenedlaethol yr Urdd a Bro Myrddin, maent yn awyddus iawn i gloriannu'r flwyddyn drwy lwyfannu'r ddrama cyn y Nadolig. Un anhawster mawr hyd yn hyn yw dod o hyd i theatr neu neuadd addas, sydd yn rhydd yr adeg yna o'r flwyddyn. Mae'r cast yn dal yn ffyddiog y gwelwn hi cyn y 'Dolig.

## CABAN

Mae'r Caban Coffi eisoes wedi agor yn y Ganolfan. Fe fydd cyfleusterau yma nawr i fynychwyr yr adeilad., ac yn wir i unrhywun sydd yn awyddus, i gael paned o goffi neu de, lluniaeth ysgafn, a hynny mewn awyrgylch bleserus, ac ystafell gysurus.

Ar hyn o bryd agorir y Caban yn ystod yr hwyr yn unig. Dyma'r amserau – cofiwch alw mewn:

Nos Lun 6.15–9.00
Nos Fawrth 6.30–9.30
Nos Fercher 6.30–9.00
Nos Wener 6.30–9.30

## EISTEDDFODAU

Dyma dyddiadau Eisteddfodau Sir De Morgannwg.

| | | |
|---|---|---|
| Eisteddfodau cylch | 8fed | Mawrth |
| Eisteddfod Sir | 22 | Mawrth |

# Cornel y Plant

## YN YR AMGUEDDFA

**Drwy hap y digwyddais droi i mewn i'r Amgueddfa Genedlaethol ddechrau gwyliau'r haf ac yn dâl am lusgo dau blentyn ifanc ar wib heibio i luniau Merlyn Evans, fe'm cefais fy hun yn crwydro cornel y plant ar lawr isaf yr Amgueddfa. Mor wahanol yw pethau yno heddiw o'u cymharu a thros chwarter canrif yn ol pan y cawn innau f'arwain i'r hongled sanctaidd yn llaw fy mam. Prawf pendant o lwyddiant y gornel yw imi gael yr anhawster mwyaf i lusgo — yn llythrennol felly — gwerth teirblwydd a phumlwydd o gnawd oddi yno. Ac nid ar y gwenyn a sain yr adar yn unig oedd y bai.**

Un o'r atyniadau pennaf oedd y cyfle a roed i'r plant i liwio a llenwi taflenni o bob math yn ymwneud a chynnwys y gwahanol gistiau. Caent ddewis eu taflen — 'Adar y Mor' 'Olew' etc; rhoddid cerdyn caled iddyn nhw bwyso arno wrth liwio, stol fach i eistedd os dewisent a gwych o syniad, caent hurio bocs o bensiliau lliw am ddwy geiniog. Wrth ddychwelyd y pensiliau derbynient hwy y ddwy geiniog llawn yn ol. Ac fel y gŵyr pob mam a phob athro fe berchir yr hyn a delir amdano yn fwy na'r hyn a ddaw'n rhad ac am ddim.

Er bod heidiau o blant yno'r pnawn hwn, Saesneg oedd eu hiaith a siom oedd deall mai rhyw dri neu bedwar yn unig fu'n holi am daflenni Cymraeg er eu bod ochr yn ochr a'r rhai Saesneg ar y bwrdd arddangos. Gobeithio fod mwy o Gymry bach Caerdydd a'r cyffiniau wedi manteisio ar y gwasanaeth ardderchog hyn yn ystod gweddill y gwyliau. Os naddo bydd cyfle eto dros wyliau'r Nadolig i'r plant sydd dros saith oed i fynd yno i dreulio'u horiau hamdden yn ddifyr ac i bwrpas rhwng 10-30 o'r gloch yn y bore a 4-30 y prynhawn. Siawns hefyd na fydd yr Awdurdodau wedi trugarhau wrth y trueiniaid dan saith oed ac wedi darparu un llun mawr ar eu cyfer er mwyn iddynt hwythau gael hurio'u pensiliau a threulio pum munud bwysig o flaen y cistiau yn lliwio fel eu harwyr hŷn.

Fe wn am ddau gwsmer yn barod.

ELERI ROGERS

O. N. Awdurdodau'r Amgueddfa — a fyddai'n bosibl ichi baratoi un llun ar gyfer plant dan 7 oed i'w liwio yn yr Amgueddfa?

*GOLYGYDD* — Gan ein bod yn canmol, gawn ni ar yr un pryd erfyn am gywirdeb yr iaith Gymraeg yn narpariaethau'r sefydliad cenedlaethol hwn. Sylwyd er enghraifft, bod y trosiadau Cymraeg o'r sylwadau Saesneg a hoeliwyd i'r muriau yn yr oriel natur '3D' yn frith o wallau iaith. Oni ellir cywiro camgymeriad fel 'sgrifennwch eu enwau' Taflen 7a a gwallau tebyg. Wedi symud mor wych i gyfeiriad dwyieithrwydd gadewch i ni fynnu perffeithrwydd bob tro.

## ADRAN LLANDAF

Ar nos Wener 15 o Dachwedd, agorodd Adran newydd o'r Urdd yng Nghaerdydd. Adran i blant Cymraeg ei hiaith, ac yn addas i'r oedran 7 — 11. Bydd yr Adran cyfarfod bob nos Wener o hyn ymlaen rhwng 5.45 a 7.00 o'r gloch, ac yn dilyn rhaglen amrywiol o dan yr arweinydd Mrs. Bethan Lewis. Dyma'r drydedd adran i agor yn y ddinas, yn dilyn llwyddiant Adrannau Rhiwbeina a'r Eglwys Newydd.

## CWIS DYSGWYR

Mae tair ysgol uwchradd yn y ddinas wedi ymuno a chystadleuaeth 'Cwis Dysgwyr Ysgolion Uwchradd'. Y dair yw Ysgol Esgob Llandaf, Ysgol Uwchradd Llanishen, ag Ysgol Sant Teilo. Chwareir y rownd gyntaf yn sirol cyn diwedd y flwyddyn, cyn mynd ymlaen yn Genedlaethol yn y flwyddyn newydd. Bydd y rown derfynol yn Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Llanelli a'r Cylch.

## CYRSIAU NOS

Cofiwch ddod i gysylltiad a Meredydd Evans, yn yr Adran Efrydiau Allanol os oes gennych ddiddordeb mewn ymuno yn y cyrsiau Seicoleg a Gosod Cerdd Dant.

# LLANILLTUD FAWR

Dros y flwyddyn diwethaf, datblygodd cryn ddiddordeb yn Llanilltud Fawr yn y bywyd Cymraeg. Sefydlwyd Ysgol Feithrin yn Medi 1973 ac eisioes mae plant wedi symud ymlaen i'r uned Gynradd Gymraeg yn y Bont-faen. Wedi derbyn y rhodd o £25 o Gymdeithas Gymraeg Rio de Janerio, mae dyfodol yr ysgol yn llawer sicrach. Mae deg o blant yn yr ysgol, dau ohonynt yn medru'r Gymraeg, a gobeithir bydd tua pump neu chwech o'r deg yn parhau gydag addysg ddwyieithog. Cadeirydd pwyllgor yr ysgol yw Mr. Gurth Wilson, Mr. Dewi Lloyd Evans yw'r ysgrifennydd a Mrs. Pat Jones yw'r trysorydd.

Bu cryn ddiddordeb hefyd yng nghyrsiau Adran Efrydiau Allanol Prifysgol Caerdydd. Yn ystod y gaeaf diwethaf bu Dewi Lloyd Evans yn darlithio ar Astudiaeth Cymraeg. Nod y cwrs oedd rhoi cefndir rhagarweiniol i Gymru i rai nad oeddynt yn medru'r Gymraeg. Cafwyd trafodaethau hynod o fywiog ar bynciau fel hanes, daearyddiaeth, cefndir politicaidd Cymru , a rhai o'r problemau cyfoes megis yr iaith a'r diwylliant Cymraeg. Eleni caiff y grwp bump darlith gan Mr. Huw Thomas ar brif nodweddion datblygiad cymdeithasau diwydiannol De Cymru, a phump darlith yn y flwyddyn newydd gan Mr. Harri Webb ar lenyddiaeth yr Eingl-Gymry. Mae'r darlithiau yma ar nos Fawrth yn y Ganolfan, a bydd Dewi Lloyd Evans yn cynnal cwrs Astudiaethau Cymraeg ar nos Lun.

Ceisiodd tri neu bedwar o Gymry Cymraeg y dre gael rhai o'u cyd-Gymry i gyfarfod bob nos Lun yn Llanmaes, er mwyn cael cyfle i sgwrsio yn y Gymraeg ond ni bu'r fenter yn llwyddiannus. Anfonwyd cylch-lythyr at ryw hanner cant o bobl oedd yn medru siarad Cymraeg, ond rhyw hanner dwsin a ddangosodd ddiddordeb. Ond wedi symud i'r Kings Head yn yr haf ar ôl streic y bragwyr daeth Mr. Graham Prosser (y gwr a drefnodd y rhodd o Rio) a nifer o bobl at y Cymry Cymraeg gyda'r bwriad o sefydlu dosbarth o ddysgwyr. Ers mis Medi mae tua pymtheg o bobl yn mynychu'r dosbarth Cymraeg yn y Ganolfan Addysg i Oedolion (ar nos Fercher), a daw nifer ohonynt ynghyd ac eraill i'r King's Head at "John y Llath" ar nos Lun i gael ymarfer eu Cymraeg. Mae un ohonynt, sef Roger Jones, yn dilyn yr Wlpan yng Nghaerdydd.

Dywedais ar y cychwyn bod diddordeb wedi datblygu yn y pethe Cymraeg yn Llanilltud Fawr. Dyna biti mai gyda'r di-Gymraeg y mae'r diddordeb, a bod y mwyafrif helaeth o'r Cymry Cymraeg yn ddigon hapus i weld yr iaith yn marw allan yn y fro.

## MERCHED Y WAWR

Mae tymor cangen y ddinas yn mynd o nerth i nerth. Cychwynnwyd gyda noson hwyliog yng nghwmni Mr Islwyn Jones (Gus) Coleg Hyfforddi'r Barri, oedd yn cofio am gymeriadau a bywyd bro ei febyd, Brynamman. Wrth gloi, a'i gynulleidfa yn ei dyblau'n chwerthin dyna'r siaradwr yn ein rhybuddio bod yna yr un math o gymeriadau'n lliwio pob cymdeithas gwerinol a dinesig dim ond i rywun agor ei lygaid i'w gweld. Felly gwylied pawb wrth gerdded strydoedd Caerdydd — fydd na rywun yn eich gwylio i weld ydych chi'n 'od' neu'n 'ddoniol' neu'n 'highly bethma'.

Dilynwyd y noson hon ymhen y mis gan ddwyawr fach felys o gofio 'hen bethau anghofiedig' Waldo — yn ddodrefn a llestri, llyfrau, dogfenni a dillad. Daeth pob aelod a rhyw declyn diddorol — cloriau i bwyso sofrenni, gwisg briodas nain Saunders Lewis,gweithredoedd ty unnos o Sir Drefaldwyn a rhyw gwpwrdd bach amheus — hynny ydy,posib mai ei bwrpas oedd dal dau bot siambr 'His and Hers' — o dderw bendigedig a gafwyd ar werth am chweigain ar un o balmantydd Pontcanna. Mae na drysorau o'n cwmpas ymhobman, hyd yn oed ar balmantau'r dre.

AMGUEDDFA WERIN CYMRU
sain ffagan

Dowch i weld: Y Castell a'i Erddi. Ysgubor y Strytlydan, Ffatri Wlan Esgair Moel, Capel Pen-rhiw, Ffermdai Abernodwydd, Cilwent, Kennixton, Hendre'r ywydd Uchaf Bwthyn Llainfadyn, Y Tanerdy, y Talwrn Ymladd Ceiliogod, y Tollborth a'r Efail, Dylech hefyd weld yr Oriel Ddiwylliant Materol lle dangosir agweddau ar fywyd a chymdeithas yng Nghymru.

Gwelwch hefyd y Crefftwyr wrth eu gwaith.

Os ydych yn cymryd diddordeb mewn traddodiadau llafar,canu gwerin neu dafodieithoedd Cymru, holwch am yr Adran Draddodiadau Llafar a Thafodieithoedd.

Gellwch cael cinio a the yn yr Ystafell Fwyta ond dylid gwneud trefniadau ymlaen llaw ar gyfer partion niferus. Eich BWS O GAERDYDD yw rhif 32 o'r ORSAF FYSIAU GYFFREDINOL.

**Mynediad:** *Pobl mewn oed 10c (20c Goffennaf ac Awst)*
*Plant o dan 16 5c.*
*Pensiynwyr yn rhad.*
*Dosbarthiadau ysgol yn rhad pan drefnir ymlaen llaw.*
*Mynediad am ddim ar Ddydd Llun.*
*(ac eithrio gwyliau cyhoeddus).*

**Maes Parcio:** *Bysiau 15c*
*Ceir Preifat 10c*
*Beiciau Modur 5c*

**Oriau Agor:** **Dyddiau'r Wythnos -**
*Ebrill, Mai, Mehefin a Medi 10.00am - 6.00pm*
*Gorffennaf ac Awst 10.00am - 7.00pm*
*Hydref - Mawrth 10.00am - 5.00pm*

**Suliau -**
*Ebrill - Medi 2.30pm - 7.00pm*
*Hydref - Mawrth 2.30pm - 5.00pm*

GORFFWYSWCH - YMLACIWCH



CERBYDAU WENALLT

*(Perchennog J.M. CROOKES)*

Cerbydau moethus gyda 20-51
o seddau i'w hurio

SWYDDFA DOCYNNAU
Ffôn Caerdydd 31174

WHITTLE ROAD, LECKWITH ESTATE,
CAERDYDD.

(Nosweithiau Ffôn 63250)

# DIOFALWCH DYNION DWAD

GAN
CEINWEN
THOMAS

**Darllenais yn y rhifyn diwethaf o'r 'Dinesydd' am ysbyty yng Nghaerdydd o'r enw Ysbyty'r Waun. Pa ysbyty ydyw hwnnw, tybed? Os trown i Eiriadur Prifysgol Cymru am oleuni ar y gair 'gwaun' cawn y canlynol yn gyfystyron Saesneg iddo: "high and wet level land, moorland, heath; low-lying ground, meadow". HEATH — y gair hwn yw'r allwedd i'r dirgelwch y mae'n siwr. Y mae Ysbyty Prifathrofaol Cymru, a elwir 'Heath Hospital' yn yr iaith fain, yn dechrau cael ei gamenwi yn 'Ysbyty'r Waun' yn Gymraeg. Y mae nifer sylweddol o Gymry Cymraeg yn byw yng Nghaerdydd, fel y prawf y tai cyrddau Cymraeg llewyrchus sydd yma, bodolaeth 'Y Dinesydd' a Chanolfan yr Urdd a llawer o bethau eraill. Ond pobl â'u gwreiddiau mewn rhannau eraill o Gymru ydyw'r mwyafrif ohonoch a dichon i chwi gael eich twyllo gan Seisnigrwydd y ddinas fawr gosmopolitan a diwreiddiedig hon i gredu bod yn rhaid bathu enwau trwy gymorth y geiriadur os am enwau Cymraeg ar gyfer yr enwau Saesneg a welir ar rannau'r ddinas. Ond nid yw hyn yn wir bob amser o bell ffordd. Y mae enwau Cymraeg ond cymryd pwyll i holi beth ydynt. Oblegid dinas ddiwreiddiedig ydyw Caerdydd, nid dinas ddiwreiddiau. Tref fechan iawn oedd hi hefyd hyd ddiwedd y ganrif ddiwethaf a llawer o'r llefydd sydd bellach wedi eu llyncu i mewn iddi yn bentrefi a ffermydd Cymraeg eu henwau yn y wlad o'i chwmpas. Ac yr oedd yr iaith Gymraeg yn fyw ynddynt, Cymraeg cyfoethog, lliwgar cymoedd Taf a Rhymni ac Elai. Ac o ran hynny, Cymraeg oedd iaith Caerdydd hefyd. A wyddoch chwi fod cynifer o Gymry uniaith yng Nghaerdydd mor ddiweddar â 1838 fel y bu'n rhaid i'r Gorfforaeth benodi Cymro Cymraeg yn Glerc y Farchnad? Agor y dociau yn ail hanner y 19eg ganrif a ddechreuodd y Seisnigo mawr 'diweddar ar Gaerdydd.**

Nid o rannau eraill o Gymru y mae pawb o'r Cymry Cymraeg yn hanfod ychwaith. Y mae rhai ohonom a'n gwreiddiau yng nghyffiniau Caerdydd ac yn dal i siarad y dafodiaith leol. O oes! Mae tafodiaith Gymraeg leol gan Gaerdydd a'r cylch a honno mor gyfoethog ei geirfa ac mor gyhyrog ei chystrawen ag unrhyw dafodiaith arall yng Nghymru, — yn fwy felly, yn wir, na llawer o dafodieithoedd y Gorllewin a'r Gogledd erbyn hyn, gwaetha'r modd. Ac yr ydym ni, brodorion cynhenid y cylch, yn gloesi wrth weld yr hen enwau yn cael eu llurgunio neu eu taflu naill ochr, nid yn unig gan y Saeson sydd wedi heidio yma — dyna'u harfer hwy — ond hefyd gan y Cymry, o ddiffyg trafferthu i holi amdanynt ac i'w harfer. Ac o son am y dafodiaith leol, a gaf i apelio at y rhai sy'n dysgu Cymraeg i ddysgwyr ac i blant yr ysgolion Cymraeg i gofio amdani ac i wneud ymdrech ymwybodol i asio arni hi yr iaith a ddysgant i'w disgyblion, yn eirfa, yn ymadroddion, yn briod-ddulliau ac yn ddywediadau, modd y cant eu gwreiddio yn y fro y maent wedi ymsefydlu ynddi? Byddwn ni yn yr Uned Ymchwil Ieithyddol Gymraeg yng Ngholeg y Brifysgol yn llawen iawn i estyn pob cymorth yn y cyswllt hwn.

## YSBYTY'R MYNYDD BYCHAN

Beth am yr Ysbyty Prifathrofaol felly? A oes enw Cymraeg ar gael ar ei gyfer, enw traddodiadol, nid enw wedi ei gynllunio? Oes, yn wir. Enwau ar y tiroedd comin, y rhostiroedd a oedd gynt y tu allan i ffiniau Caerdydd ydoedd Great Heath a Little Heath. Mae'r enwau'n hen, yn mynd yn ôl cyn belled a'r 13eg ganrif, y naill yn enw ar y darn o rostir a ymestynnai gynt o gyffiniau Allensbank Rd. a llyn y Rhath cyn belled a Llanisien Fach, a'r llall yn enw ar y darn o dir comin rhwng Albany Rd. a Woodville Rd. Ac y mae hen enwau Cymraeg arnynt. Y Mynydd Bychan ydyw'r Great Heath ac Y Waun Ddyfal yw'r Little Heath. Gwelwch, felly, mai ar Y Mynydd Bychan y mae'r ysbyty nid ar Y Waun Ddyfal, a'r enw cywir arno ydyw Ysbyty'r Mynydd Bychan. Tir sy'n codi'n raddol i gyfeiriad y mynyddoedd y tu ôl i Gaerdydd ydyw y Mynydd Bychan ac y mae'r enw'n hollol addas, yn enwedig os gellwch ei ddychmygu fel yr oedd gynt, cyn ei orchuddio gan adeiladau.

## AR RAS I'R AIS

A minnau wedi dechrau son am enwau Caerdydd a'r cylch, cystal son am rai eraill cyn tewi. Nid oes enw Cymraeg ar The Hayes, O'r gair Ffrangeg "haie" neu, efallai o'r gair Eingl-Saesneg "haeg", y ddau yn golygu 'perth' y daeth yr enw hwn, yn ôl yr ysgolheigion. Yn yr Oesoedd Canol, lle agored oedd y rhan o'r dref a elwir The Hayes yn awr, ac yno yr oedd gerddi a pherthi o'u cwmpas. Y perthi hyn, y mae'n debyg, oedd yr "haies". Aeth 'The Hayes' yn 'Yr Ais' ar dafodau'r Cymry ac yn "Siop Dafydd Morgans Yr Ais" yr oedd fy mamgu yn hoffi prynu pan ddeuai i Gaerdydd i siopa. Gobeithio mai ar Yr Ais y byddwch chwithau'n siopa o hyn allan, nid ar The Hayes.

Ni chlywais neb yn cyfeirio at eglwys St. Johns wrth enw Cymraeg, ond y mae iddi hithau enw Cymraeg, serch hynny. Mewn rhestr o blwyfi Cymru a geir yn llawysgrif Peniarth 147 (dyddiad tua 1566, rhestrir hi dan yr enw "Ieuan Fedyddiwr". Felly Eglwys Ieuan Fedyddiwr ddylai hi fod i ninnau. Yn yr un rhestr, ceir yr enw Yr Eglwys Newydd ar blwyf arall. Whitchurch ydyw honno. Daw'r enw Saesneg o'r Lladin "Album Monasterium" a welir mewn dogfennau o'r Oesoedd Canol. Y mae ffurf Ffrangeg ar yr enw ar gael hefyd — "Blancminster", a'r ffurfiau Saesneg "Whitminster, Whitchurch". Gall y gair "monasterium" olygu 'mynachlog' neu gall olygu 'eglwys', yn union fel y gair 'minster', Y mae son bod mynachlog ar lan Afon Taf cyn cyfnod y Normaniaid ac ni ellir, felly, fod yn gwbl sicr beth a olygai'r gair yn wreiddiol. Ond nid Yr Eglwys Wen, fel y gellid disgwyl, yw'r enw Cymraeg arni, serch hynny. Ni byddai un brodor Cymraeg o gyffiniau Caerdydd yn gwybod ymhle mae honno; Reclws Newydd ydyw i ni ac y mae'r enw hwnnw'n mynd yn ol i ddyddiau cynnar yr 16eg ganrif, man lleiaf. Wrth yr enw hwnnw y mae Leland yn ei 'Itinerary in Wales' (1536–39) yn cyfeirio ati. Nid yr eglwys sydd yno'n awr sydd wedi rhoi ei henw i'r pentref. Agorwyd honno ym 1885 i gymryd lle'r eglwys a arferai fod yn Old Church Rd., ac ni chodwyd honno ychwaith cyn yr 17eg ganrif. Y mae'r enw'n ddigon hen, y mae'n siwr, ac yn ddigon arferedig i ninnau, Cymry cyfoes Caerdydd, ei arddel. Ac a ellir cael pawb i gofio mai Yr Eglwys Newydd yw enw'r lle? Pa fursendod sydd wedi cydio yng Nghymru Caerdydd eu bod yn mynnu dweud Eglwys Newydd, Creigiau, Efail Isaf yn lle yr Eglwys Newydd, Y Creigiau, Yr Efail Isaf. Sawl un ohonoch sy'n dweud Bala, Wyddgrug, Felinheli yn lle Y Bala, Yr Wyddgrug, Y Felinheli; paham na ellir parchu enwau Cymraeg dwyrain Morgannwg gan y Cymry — a chan y Cyfryngau darlledu yn ogystal — fel y perchir enwau Cymraeg rhannau eraill o'r wlad?

---

**BABI ARALL**

**Llongyfarchio i Helen (nee Williams o Abergwaun) a Glyn Williams Cyncoed ar enedigaeth Mathew, brawd i Rachel.**

---

## Undodiaid Caerdydd

*Nage, nid yr Undebwyr, fel y cyhoeddwyd yn rhifyn Medi o 'Y Dinesydd', sy'n cynnal cwrdd Cymraeg bob mis yng Nghapel West Grove, ond yr Undodiaid. Bellach, mae'r cwrdd Cymraeg wedi cyrraedd ei ugain oed ac ar nos Fawrth, Medi'r 24ain bu'r aelodau yn dathlu'r achlysur ym Mryn Catwg, Pen - tyrch, cartref Ceri ac Elwyn Hughes. Y Parchedig Eric Jones, Aberdâr, gweinidog West Grove, a lywiai'r gweithgareddau ac efe hefyd fu'n gyfrifol am yr adloniant. Cafwyd atgofion lu am gychwyn y cyrddau Cymraeg yn 1954. Adroddodd Mr John Davies, (Clare Rd) sut y bu iddo orfod seiclo adre o West Grove cyn i'r gwasanaeth ddechrau i mofyn Beibl Cymraeg am nad oedd un ar gael yn y capel. Y diweddar Barchedig Jacob Davies (a fu farw eleni) a gymerodd y gwasanaeth cyntaf.*

*Prynhawn Sul, Hydref 13eg, yn dilyn y Cwrdd Diolchgarwch Cymraeg, bu te arbennig yn Festri West Grove. Cafwyd cacen ben blwydd (o waith Mrs Margaret Evans, Southminster Rd) yn ganolbwynt i'r dathlu. Ar ddiwedd y prynhawn cafwyd casgliad tuag at Gronfa 'Y Dinesydd'.*

*Cyhoeddwyd gan Bwyllgor Y Dinesydd. Argraffwyd gan Gyhoeddwyr Cleglen Cyf, 134 Ffordd Parc Ninian, Caerdydd; ffôn : 28917.*
*Hysbysebu gan Cyhoeddiadau ap Dafydd Cyf, 55 Heol Eglwys Gadeiriol Isa, Caerdydd; ffôn : 396262.*